Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Craffu – Cyngor Sir Powys


Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4858A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam fod craffu effeithiol yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion i'r Cyngor 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Trosolwg o drefniadau craffu'r Cyngor 11

Atodiad 2 – Cwestiynau a meini prawf archwilio 12

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 (2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

2 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- canfod a yw Cyngor Sir Powys (y Cyngor) wedi sefydlu trefniadau priodol i ategu'r swyddogaeth graffu, ac
- asesu cynnydd y Cyngor o ran ymdrin â chynigion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwella ac argymhellion mewn perthynas â chraffu, a wnaed mewn adroddiadau blaenorol.

## Pam fod craffu effeithiol yn bwysig

3 Mae swyddogaeth graffu effeithiol yn elfen allweddol o lywodraethu ym mhob cyngor. Mae'n hanfodol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, ac i wella ansawdd prosesau penderfynu. Mae ei rolau strategol allweddol[1] yn cynnwys:

- dwyn y weithrediaeth i gyfrif am gyflawni swyddogaethau gweithredol yn effeithlon – yn enwedig perfformiad y weithrediaeth fel y'i mesurir yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu rhoi ar waith;
- cynorthwyo i wella a datblygu polisïau'r cyngor trwy werthuso a ydynt yn cyflawni eu hamcanion datganedig, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu'r cyngor llawn;
- adolygu a llunio adroddiadau ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei breswylwyr; ac
- archwilio a yw'r systemau sydd gan y weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau'n gadarn ac a ymlynir yn briodol wrthynt.

[1] Llywodraeth Cymru (2006) Canllawiau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ar drefniadau Gweithrediaeth a threfniadau amgen

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych[2]

4 Fe wnaethom adolygu effeithiolrwydd trefniadau craffu'r Cyngor. Fe ddefnyddiom ni'r cwestiynau a'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 2** i oleuo ein hasesiad o drefniadau'r Cyngor. Mae'r meini prawf archwilio'n seiliedig ar gyhoeddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, y 'Papur Trafod: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol' a'r rhestr wirio o Chwe cham er mwyn helpu i wneud craffu'n barod at y dyfodol.

5 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal dau adolygiad o drefniadau craffu yn y Cyngor yn flaenorol.

- Yn 2018, fe gyhoeddom ni'r adroddiad canlynol: Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol?
- Yn 2021, fe gyhoeddom ni Adolygiad Dilynol o Drefniadau Craffu

6 Fe wnaeth y ddau adroddiad gyfres o argymhellion i wella'r swyddogaeth graffu. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau mewn perthynas ag effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau craffu'r Cyngor, gan gynnwys ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r adroddiadau uchod.

7 Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **A yw trefniadau'r Cyngor yn ategu craffu effeithiol?**

# Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

8 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn rhwng mis Awst a mis Hydref 2024, trwy:

- adolygu dogfennau allweddol, er enghraifft papurau pwyllgorau, canllawiau i aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwi ar sampl o gyfarfodydd pwyllgorau craffu; a
- chynnal cyfweliadau grŵp gyda swyddogion allweddol, y Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y pwyllgorau craffu.

[2] A ddiffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau'n well.

## Yr hyn a ganfuom

9 **Ar y cyfan, canfuom fod diffyg eglurder ymhlith swyddogion ac aelodau ynghylch diben a gwerth y swyddogaeth graffu'n tanseilio ei heffeithiolrwydd.**

10 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi diben a rôl strategol y swyddogaeth graffu o fewn ei strwythurau llywodraethu. Er gwaethaf y disgrifiad eglur hwn, mae gwendidau mewn nifer o agweddau ar drefniadau'r swyddogaeth (paragraffau 13-21) yn cyfeirio at ddiffyg eglurder sylfaenol ynghylch ei diben a'i gwerth.

11 O ganlyniad, nid yw'n glir sut y mae'r swyddogaeth yn cyfrannu at ansawdd gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl leol. Mae hyn yn creu risgiau sylweddol i weithredu rhaglen trawsnewid strategol y Cyngor, Powys Gynaliadwy.

12 Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ac argymhellion ynglŷn â chraffu. Fodd bynnag, hyd yma, cyfyngedig fu effaith y rhain ar effeithiolrwydd cyffredinol y swyddogaeth. Caiff yr argymhellion blaenorol hynny eu disodli yn awr gan y ddau argymhelliad yn yr adroddiad hwn.

### Mae gwendidau yn nhrefniadau rhaglennu gwaith y swyddogaeth graffu'n dynodi diffyg perchnogaeth ac integreiddio strategol sy'n creu risg o gyfyngu ar ei heffeithiolrwydd

13 Nid yw cysylltiadau rhwng gweithgarwch craffu ac amcanion llesiant a chofrestr risgiau strategol y Cyngor wastad yn cael eu dangos yn glir. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i'w brosesau cynllunio gwaith ers yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennym yn 2018 a 2021. Er enghraifft, mae cadeiryddion pwyllgorau craffu bellach yn cwrdd yn rheolaidd gyda swyddogion i drafod blaenraglenni gwaith pwyllgorau unigol a cheisio eu cysoni â blaenraglen waith y Cabinet. Fodd bynnag, er y gall fod manteision amlwg i gydgysylltu rhaglenni gwaith y Cabinet a phwyllgorau craffu, gall newidiadau ar fyr rybudd i flaenraglenni gwaith y Cabinet leihau'r amser sydd ar gael i'r swyddogaeth graffu ymgysylltu'n llawn â phenderfyniadau a pholisïau arfaethedig. Mae ein hadolygiad hefyd yn dynodi nad yw rhaglenni gwaith pwyllgorau craffu wastad yn rhoi adlewyrchiad cynhwysfawr o'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor, er enghraifft yr argyfwng natur a ddatganwyd gan y Cyngor, seiberddiogelwch neu faterion cynnal a chadw ysgolion. Mae mynegi'n glir beth yw cyfraniad y swyddogaeth graffu at fynd i'r afael â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol y Cyngor yn bwysig i helpu i ddangos effaith craffu.

14 Efallai nad oes gan gadeiryddion pwyllgorau craffu reolaeth a pherchnogaeth ar y flaenraglen waith i'r graddau y mae'r cyfansoddiad yn nodi y dylai fod ganddynt reolaeth a pherchnogaeth arni. Canfuom, er bod pwyllgorau craffu'n adolygu eu blaenraglenni gwaith yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd, nad yw eitemau a gynlluniwyd wastad yn cael eu cyflwyno fel y'u hamserlennwyd a bod newidiadau

byr-rybudd yn cael eu gwneud yn fynych i'r rhaglen waith. Nid yw'r rheswm/rhesymau dros yr oedi, neu'r dyddiad pan fo'r pwyllgor yn debygol o ystyried yr eitem, yn cael ei/eu nodi bob amser. Golyga hyn efallai nad yw aelodaeth ehangach y Cyngor neu aelodau'r cyhoedd yn deall pryd y bydd eitemau'n cael eu hystyried. Mae hyn yn cyfyngu ar dryloywder ac yn creu risg o atal cyfranogiad ac ymgysylltiad ehangach â gwaith y swyddogaeth graffu.

15 Nid yw'r Cyngor wastad yn sicrhau bod dibenion datganedig gweithgorau craffu'n cyd-fynd â rôl y swyddogaeth graffu ar y cyfan. Yn dilyn argymhelliad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021 (gweler **paragraff 5** am y cyfeiriad), mae'r Cyngor wedi cynyddu'r defnydd o weithgorau craffu fel dewis yn lle ystyried adroddiadau yng nghyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd yn glir pam fod y Cyngor wedi dewis gweithgorau fel y dull mwyaf priodol o graffu ar bynciau penodol. Mae gweithgorau'n adnodd-ddwys a heb ddiben a ddisgrifir yn glir sy'n cyd-fynd â diben cyffredinol craffu, ceir risg nad yw grwpiau o'r fath yn ychwanegu rhyw lawer o werth at y swyddogaeth.

## Mae gwendidau yn nhrefniadau gweinyddu'r swyddogaeth graffu'n arwain at ddiffyg eglurder ynghylch rôl pwyllgorau ac yn creu risg o gyfyngu ar dryloywder

16 Efallai nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n gyson â'i brosesau a'i weithdrefnau ei hun mewn perthynas â gweinyddu'r swyddogaeth graffu. Er enghraifft:

- nid oes papurau eglurhaol yn cael eu cyflwyno gydag adroddiadau i bwyllgorau craffu bob amser. Mae'r templed ar gyfer papur eglurhaol yn cynnwys adrannau lle dylai awduron adroddiadau nodi rôl a diben y pwyllgor craffu o ran ystyried yr eitem. Fodd bynnag, canfuom, ers dechrau 2024, fod gan lai na hanner yr eitemau sylweddol ar agendâu adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â hwy. Hyd yn oed ar gyfer eitemau a oedd â phapur eglurhaol, nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys bob amser. Trwy beidio â disgrifio rôl pwyllgorau o ran craffu ar rai pynciau, mae'r Cyngor yn creu risg nad yw eu rolau a diben trafodaethau yn glir i aelodau.
- pan fo pwyllgor craffu'n cyflwyno argymhelliad i'r Cabinet, mae'r Cabinet yn cael adroddiad er mwyn iddo allu penderfynu a yw'n derbyn yr argymhelliad/argymhellion yn llawn, yn rhannol ynteu'n gwrthod yr argymhelliad/argymhellion. Mae'r cyfansoddiad yn darparu bod rhaid i adroddiad sy'n nodi ymateb y Cabinet gael ei ystyried gan y pwyllgor craffu perthnasol, a hynny o fewn dau fis. Fodd bynnag, canfuom nad felly yr oedd hi bob amser. O ganlyniad, nid yw ymatebion y Cabinet i argymhellion pwyllgorau craffu wastad yn fater a roddir ar gofnod cyhoeddus o fewn y graddfeydd amser gofynnol.
- yn ystod cyfnod ein hadolygiad ni, cafodd yr holl bwyllgorau craffu eitemau ar agendâu fel diweddariadau ar lafar, fel cyflwyniad a rannwyd yn ystod y cyfarfod, neu fel eitemau hwyr. Trwy beidio â chyhoeddi adroddiadau a gwybodaeth pwyllgorau craffu dri diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd y

pwyllgorau, mae'r Cyngor yn creu risg o gyfyngu ar yr amser sydd gan aelodau o bwyllgorau craffu i baratoi. Mae hefyd yn creu diffyg tryloywder i aelodau'r cyhoedd gan y gall fod yn llai eglur pam a phryd y mae pwnc yn cael ei gyflwyno gerbron pwyllgor craffu a beth allai'r canlyniad(au) posibl fod.

17 O ganlyniad i'r gwendidau gweinyddol hyn, ceir risg bod pwyllgorau craffu'n cael trafodaethau heb ddealltwriaeth eglur am yr hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni. Mae mynychder y materion hyn yn awgrymu nad yw'r Cyngor wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth am rôl a diben y swyddogaeth graffu.

## Mae trefniadau'r Cyngor i werthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu ac ategu gwelliant yn gyfyngedig

18 Ceir gwendidau yn y gweithgarwch dysgu a datblygu a ddarperir gan y Cyngor i ategu'r swyddogaeth graffu. Er bod pwyllgorau'n adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd i adnabod meysydd ar gyfer gwella, nid yw'r Cyngor yn gweithredu'n gyson ar yr wybodaeth hon trwy ddarparu rhaglen hyfforddi ymatebol i wella sgiliau a gwybodaeth y rhai sy'n rhan o gyflawni'r swyddogaeth. Golyga hyn fod risg bod y Cyngor yn colli cyfleoedd i gynorthwyo aelodau i ymdrin â meysydd allweddol ar gyfer datblygu a gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth.

19 Ceir cyfyngiadau yn nhrefniadau'r Cyngor i werthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu. Mae mesurau i asesu effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu'n canolbwyntio ar nifer yr argymhellion a wneir a faint o'r rheiny a dderbynnir yn llawn neu'n rhannol gan y Cabinet. Nid yw'r mesurau hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu a monitro ansawdd yr argymhellion, nac ansawdd y gweithgarwch craffu a arweiniodd at wneud yr argymhellion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried nad yw'r argymhellion a wneir gan bwyllgorau craffu'r Cyngor wastad yn benodol, yn eglur nac yn gyraeddadwy.

20 Efallai nad yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth berthnasol i ddadansoddi perfformiad a gwella effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu. Er enghraifft:

- mae pob pwyllgor craffu'n cynnal hunanwerthusiad blynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu i ymateb i'r materion a godwyd yn yr hunanwerthusiad. Nid felly yr oedd hi ar gyfer hunanwerthusiadau 2023-24.
- mae cyfansoddiad y Cyngor yn datgan bod y Cyngor llawn yn cael adroddiad craffu blynyddol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r adroddiad hwn o fewn ei adroddiad hunanasesu cyffredinol, yn hytrach na'i gadw fel adroddiad ar wahân. Mae'r adrannau yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chraffu'n fyr ac yn canolbwyntio ar ddisgrifio gweithgarwch yn hytrach na dadansoddi a dangos effaith gweithgarwch craffu.

21 Mae gwendidau yn nhrefniadau’r Cyngor i werthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu’n cyfyngu ar ei allu i asesu, deall a dangos mewn ffordd gynhwysfawr sut y mae ei swyddogaeth graffu’n cynrychioli gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i’r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i’r Cyngor**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Sefydlu dealltwriaeth ar y cyd am werth a diben strategol y swyddogaeth graffu**<br>A1 Mae’r adroddiad hwn yn amlygu nifer o wendidau sy’n deillio o ddiffyg eglurder a dealltwriaeth ynghylch rôl a diben y swyddogaeth graffu. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, dylai’r Cyngor sefydlu dealltwriaeth eglur a chyfunol am ddiben y swyddogaeth graffu. Wrth wneud hyn, dylai’r Cyngor:<br>• adolygu dibenion y swyddogaeth graffu fel y’u nodir yn y cyfansoddiad ac asesu a yw’r rheiny’n dal i fod yn ddilys gan gynnwys yr aelodau a’r swyddogion hynny â rôl berthnasol;<br>• sicrhau bod yr holl ddogfennau sy’n ymwneud â chraffu’n cael eu geirio’n gyson o ran ei ddibenion; a<br>• darparu gweithgareddau dysgu a datblygu perthnasol ar gyfer aelodau a swyddogion i’w helpu i gyflawni pob agwedd ar y swyddogaeth yn effeithiol yn unol â’i diben (gan gynnwys rhaglennu gwaith, dysgu a datblygu, datblygu argymhellion a gwerthuso). |
| **Gwerthuso gwerth am arian**<br>A2 Mae’r adroddiad hwn yn codi cwestiynau am y gwerth a ychwanegir trwy’r ffordd y mae swyddogaeth graffu’r Cyngor yn gweithredu ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, dylai’r Cyngor sefydlu trefniadau i werthuso a dangos gwerth am arian y swyddogaeth graffu mewn ffordd gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys:<br>• asesu a monitro ansawdd yr argymhellion a wneir gan bwyllgorau craffu;<br>• sefydlu ystod ehangach o fesurau llwyddiant perthnasol ar gyfer y swyddogaeth; a<br>• chynnal a chyhoeddi adolygiadau blynyddol o effaith y swyddogaeth graffu sy’n cyd-fynd â’i diben. |

# Atodiad 1

## Trosolwg o drefniadau craffu'r Cyngor

Caiff y mwyafrif o benderfyniadau'r Cyngor eu gwneud gan y Cabinet, sy'n cynnwys deg aelod etholedig.

Mae gan y Cyngor dri phwyllgor craffu, y mae pob un ohonynt yn cynnwys 11 aelod etholedig[3] nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet. Y pwyllgorau hynny yw:

- Yr Economi, Preswylwyr, a Chymunedau;
- Iechyd a Gofal; a
- Dysgu a Sgiliau.

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn amlygu rôl strategol pwyllgorau craffu o ran bod yn 'bwyllgorau pwerus sy'n gallu cyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cyngor a hefyd dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau. Rhan allweddol arall o'r rôl trosolwg a chraffu yw adolygu polisïau presennol, ystyried cynigion ar gyfer polisïau newydd ac awgrymu polisïau newydd'.

Mae'r cyfansoddiad yn nodi y 'Dylai trosolwg a chraffu ddigwydd mewn ffordd adeiladol a dylai amcanu at gyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni dyheadau trigolion lleol. Ni ddylai Pwyllgorau Craffu wingo rhag yr angen i herio a chwestiynu penderfyniadau a mynegi beirniadaeth adeiladol'.

Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio'r camau gweithredu y bydd pwyllgorau'n eu cymryd i gyflawni'r dibenion uchod, sef:

- adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau gweithredu a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Cyngor boed gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor;
- cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Cabinet neu'r Cyngor mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
- ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ei drigolion; ac
- arfer yr hawl i alw i mewn benderfyniadau a wnaed, ond na roddwyd ar waith eto, gan y Cabinet a Swyddogion.

Mae pwyllgorau craffu'n cwrdd bob chwe wythnos fel rheol. Mae'r Pwyllgorau'n cwrdd fel cydbwyllgor i graffu ar Gerdyn Sgorio'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol (CSEP) yn chwarterol.

Rheolir y swyddogaeth graffu gan Bennaeth Deallusrwydd Busnes a Llywodraethu'r Cyngor a gefnogir gan un uwch swyddog craffu a dau swyddog craffu. Mae'r swyddogion hynny'n cefnogi'r pwyllgorau ac yn gweinyddu'r ystod o weithgareddau'r pwyllgorau gan gynnwys cyfarfodydd a gweithgorau.

[3] Mae'r pwyllgor dysgu a sgiliau hefyd yn cynnwys dau gynrychiolydd o blith rhiant-lywodraethwyr; un cynrychiolydd ar ran Esgobaeth yr Eglwys Yng Nghymru ac un cynrychiolydd ar ran Esgobaeth yr Eglwys Gatholig fel aelodau.

# Atodiad 2

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** A yw trefniadau'r Cyngor yn ategu craffu effeithiol?

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 1. A oes gan aelodau etholedig a swyddogion ddealltwriaeth gyffredin am rôl y swyddogaeth Graffu? | • Mae gan aelodau etholedig a swyddogion ddealltwriaeth gyson am rôl a swyddogaeth craffu fel a nodir mewn deddfwriaeth ac yng nghyfansoddiad y Cyngor.<br>• Mae gan aelodau etholedig a swyddogion ddealltwriaeth gyson am y manteision a'r deilliannau bwriadedig y bydd y swyddogaeth Graffu'n eu dwyn. |
| 2. A yw'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw rolau aelodau o bwyllgorau craffu, aelodau o'r Cabinet a swyddogion o fewn y swyddogaeth Graffu? | • Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir ac yn cael eu deall yn glir.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu, aelodau o'r Cabinet a swyddogion yn cyflawni eu rolau'n gyson fel y maent wedi eu nodi. |
| 3. A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi aelodau o'i bwyllgorau craffu? | • Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau ar gyfer cymorth, hyfforddiant a datblygiad i swyddogion a fydd yn helpu'r swyddogaeth graffu i gyflawni ei deilliannau bwriadedig.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad swyddogion sy'n gweithio i gefnogi'r swyddogaeth graffu.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad aelodau etholedig sy'n rhan o'r swyddogaeth graffu. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r Cyngor yn gweithredu ar ganfyddiadau'r asesiadau hynny i adnabod y gweithgareddau datblygu gofynnol ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion sy'n rhan o'r swyddogaeth graffu.<br>• Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a datblygiad y mae'n eu darparu ar gyfer aelodau o bwyllgorau craffu a swyddogion. |
| 4. A yw'r swyddogaeth Graffu'n blaenoriaethu ac yn cynllunio ei gweithgareddau i gael yr effaith fwriadedig yn y ffordd orau? | • Mae'r Cyngor yn rhoi cymorth i aelodau o bwyllgorau craffu i oleuo eu proses o gynllunio gwaith.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n cynllunio ac yn perchnogi'r gweithgareddau yn eu blaenraglen waith yn effeithiol, gan ystyried y rhesymeg ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch, sut y byddant yn cyflawni'r gweithgarwch a chytuno ar y dull gorau o gyflawni'r gweithgarwch.<br>• Mae blaengynllunio gwaith gan bwyllgorau craffu'n ystyried faint o amser ac adnoddau allai fod eu hangen i graffu'n effeithiol ar bynciau.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n deall yr ystod o ddulliau craffu y gallant eu defnyddio ar gyfer pynciau arfaethedig.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n deall deilliannau bwriadedig eu gweithgarwch craffu arfaethedig.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n gwerthuso a ydynt yn cyflawni'r deilliannau bwriadedig hynny. |
| 5. A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau bod cyfarfodydd y swyddogaeth graffu'n gweithredu'n effeithiol? | • Mae gan y Cyngor ganllawiau eglur ar gyfer gweinyddu'r holl gyfarfodydd gan bwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen/ gweithgorau, gan gynnwys pennu agendâu, defnyddio diweddariadau ar lafar a chyflwyniadau, adolygu cofnodion a datganiadau chwipiau'r pleidiau.<br>• Mae swyddogion yn defnyddio templed cyson ar gyfer yr holl adroddiadau sy'n cyd-fynd ag eitemau ar agendâu'r pwyllgorau craffu.<br>• Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth dda am y prosesau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd craffu. |
| 6. A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei gwneud yn bosibl clywed | • Mae'r Cyngor wedi diffinio ei uchelgeisiau'n glir wrth geisio ennyn ymgysylltiad y cyhoedd â throsolwg a chraffu. |

| | |
|---|---|
| amrywiaeth berthnasol ac eang o safbwyntiau yn y swyddogaeth graffu? | • Mae'r Cyngor wedi adolygu sut y gall technoleg well ei helpu i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd yn rhwyddach ac mewn modd mwy cost-effeithiol.<br>• Mae'r Cyngor wedi gwerthuso a yw ei swyddogaeth graffu'n gweithredu mewn ffordd sy'n ffafriol i ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnwys rhanddeiliaid eraill mewn modd rhagweithiol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu a oes swyddogion ganddo sydd â'r wybodaeth, sgiliau a phrofiad cywir yn ogystal â hyfforddiant, datblygiad a TGCh i hwyluso ymgysylltiad â'r cyhoedd.<br>• Mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth i aelodau er mwyn galluogi'r swyddogaeth graffu i ymgysylltu'n briodol â'r cyhoedd.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod y swyddogaeth graffu'n ymgysylltu â gwybodaeth a barn gan ystod eang o aelodau o'r cyhoedd. |
| 7. A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd craffu? | • Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau craffu'n rheolaidd, gan ddefnyddio mesurau o effeithiolrwydd gan gynnwys effaith. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.